## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (CYLCHFAN ABERDULAIS I GYLCHFAN RESOLFEN, CASTELL-NEDD PORT TALBOT) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Aberdulais a Chylchfan Resolfen, Castell-nedd Port Talbot.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A465 a ddisgrifir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn hefyd;

ii) gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o gefnffordd yr A465 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn;

iii) gosod terfyn cyflymder o 10 mya ar y darnau o gefnffordd yr A465 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol yn ysbeidiol o 20:00 o'r gloch ar 15 Awst 2025 ac yn parhau tan 06:00 o'r gloch ar 1 Rhagfyr 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

## THE A465 TRUNK ROAD (ABERDULAIS ROUNDABOUT TO RESOLVEN ROUNDABOUT, NEATH PORT TALBOT) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road between Aberdulais Roundabout and Resolven Roundabout, Neath Port Talbot.

The effect of the Order is to temporarily:

i) prohibit all vehicles, other than those being used for the works, from proceeding on the lengths of the A465 trunk road described in Schedules 1 and 2 to this Notice. The alternative routes, which will be signed accordingly, are also described in Schedule 1 to this Notice;

ii) impose a 40 mph speed limit on the lengths of the A465 trunk road described in Schedule 1 to this Notice;

iii) impose a 10 mph speed limit on the lengths of the A465 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to operate intermittently from 20:00 hours on 15 August 2025 and remain until 06:00 hours on 1 December 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency, should the works need to be rescheduled, or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**P HUISH**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**P HUISH**
Transport
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro, Terfynau Cyflymder 40 mya a 10 mya a Gwahardd Goddiweddyd yn ystod Gwaith Confoi**

Y darnau o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A465 sy'n ymestyn o'r gyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Aberdulais hyd at y gyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain yw gadael y gefnffordd wrth Gylchfan Aberdulais a pharhau tua'r gogledd-ddwyrain ar hyd yr A4109, y B4242 a'r B4434 i Gylchfan Resolfen i ailymuno â'r A465. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.

**ATODLEN 2**
**Cau Cilfannau**

Cilfannau cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A465 rhwng Cylchfan Aberdulais a Chylchfan Resolfen.

**SCHEDULE 1**
**Temporary Prohibition of Vehicles, 40 mph and 10 mph Speed Limits and Prohibition of Overtaking during Convoy Working.**

The lengths of the A465 eastbound and westbound carriageways that extend from the junction with the circulatory carriageway of Aberdulais Roundabout to the junction with the circulatory carriageway of Resolven Roundabout.

The alternative route for eastbound traffic is to leave the trunk road at Aberdulais Roundabout and continue northeast along the A4109, B4242 and B4434 to Resolven Roundabout to re-join the A465. Vice versa for westbound traffic.

**SCHEDULE 2**
**Closure of Laybys**

The A465 eastbound and westbound carriageway laybys between Aberdulais Roundabout and Resolven Roundabout.